
mencap
The Electoral Commission


Easy read




# Ar ddydd Iau 4 Gorffennaf 2024, bydd Etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn cael ei gynnal ledled y DU




Ar ddydd Iau 4 Gorffennaf 2024, bydd etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cael eu cynnal yng Nghymru a Lloegr.




Yn yr etholiadau hyn bydd angen i chi ddod ag ID ffotograffig i allu pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio



Derbynnir llawer o ID ffotograffig, er enghraifft pasbortau, trwyddedau gyrru a chardiau gyda marc PASS arnyn nhw.




Dylai'r enw ar eich ID fod yr un enw a ddefnyddiwyd gennych i gofrestru i bleidleisio.




Os nad oes gennych fath o ID a dderbynnir, gallwch wneud cais am ddogfen ID pleidleisiwr am ddim a elwir yn Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr.




Bydd angen i chi fod wedi cofrestru i bleidleisio erbyn 11:59pm ar ddydd Mawrth 18 Mehefin 2024.




Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post yw 5pm ar 19 Mehefin 2024.




Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy yw 5pm ar ddydd Mercher 26 Mehefin 2024.

I gael gwybod mwy, gan gynnwys pa fathau o ID a dderbynnir, sut i wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr os oes angen un arnoch a beth fydd yn digwydd yn yr orsaf bleidleisio:



- ewch i comisiwnetholiadol.org.uk/idpleidleisiwr



- ffoniwch 0800 328 0280